Cyngor Tref TREGARON Town Council *Clerc/Clerk:* Heulwen Bulman

Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 9 MAWRTH 2018 AM 7.00 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2018

1. **CROESO**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Karine Davies, Cyng Catherine Hughes, Arwel Jones, Manon Wyn James, June Owens a Cyng Gary Rees

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng Gwilym Jenkins, Ann Jones, Alun Owen a Cyng Rhydian Wilson.

3. **MATERION PERSONOL**
Dim i'w gofnodi

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**
Neb

5. **CADARNHAU COFNODION 9 CHWEFROR & 21 CHWEFROR 2018**
9 CHWEFROR 2018
Cynnig: Cyng Karine Davies
Eilio: Cyng Arwel Jones

Cywiriad i 12.1
Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth Cyng David Bennett a fynychodd cyfarfod Ardal Un Llais Cymru ar 24 Ionawr 2018. Cyng David Bennett wedi enwebu Cyngor Tref Tregaron ar gyfer gwobr Genedlaethol arfer arloesol Un Llais Cymru 2018. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Ebrill 2018.

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
6.1 Cyng David Bennett wedi ymgymryd ag arolwg y parc am ddau fis, Cyng Manon Wyn James i wneud y mis nesaf. Clerc i anfon copi o'r ffurflen angen ei llenwi a chopi o un blaenorol Cyng David Bennett.
6.2 Cyng June Owens a Cyng Gary Rees i droi'r twnnel fel bod y difrod ddim ar waelod mynediad y twnnel.
6.3 Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Technoleg Taliesin hyd yma, Clerc i gysylltu â rhoi'r cyfle olaf iddo lawrlwytho'r app cyfieithu ar wefan y Cyngor Tref. Cytunwyd i baratoi'r cofnodion o Fehefin 2017 ymlaen a'i llwytho ar y gwefan.
6.4 Gofynnir am wirfoddolwyr i gynorthwyo yn y Ganolfan Hamdden yn y dyfodol agos.
6.5 Nid yw'r coed wedi'u torri lawr o Argoed i Abercoed gan deulu Ms Beth Herridge.
6.6 Derbyniwyd cadarnhad bod Mr Eifion Davies, yn fodlon cynorthwyo efo'r gwaith o gynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol ac i fod yn bwynt cyswllt efo Cyfoedd Naturiol Cymru. Cyng Catherine Hughes i siarad ymhellach a Mr Davies.

6.7 Cynlluniau a pharatoadau am safle addas i Eisteddfod 2020 yn parhau. Teulu Penlan wedi bodloni trafod ymhellach. Clerc wedi derbyn ac anfon map o'r safle o dan ystyriaeth nol i'r pwyllgor Eisteddfod gan nodi enwau a rhifau cyswllt. Clerc wedi nodi caeau ychwanegol yn berchen ar Camer i'r Eisteddfod a soniwyd bod pwyllgor yr Eisteddfod wedi nodi caeau Trecefel lawr, gofynnir i'r clerc cysylltu â'r pwyllgor i ofyn sut ddaeth caeau Trecefel mewn i'r map?

6.8 Nid oedd gwaith ar dorri'r clawdd lawr o Catllyrion, Blaencaron lawr i Llainfflur wedi'u dorri nol eto. Gadael tan y cyfarfod nesaf.

6.9 Derbyniwyd cadarnhad bod pwll nofion Tregaron yn wag o ddŵr ond bod y gwres ymlaen i wneud yn siŵr nad oedd y pibenni yn rhewi.

7. **CYFRIFON**

7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £120.00
7.2 Cyflog Clerc £237.60
7.3 Aelodaeth Un Llais Cymru £193
7.4 D A G Jones £102.38

Cynnig: Cyng June Owens
Eilio: Cyng Catherine Hughes

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Gweithiwr strydlun yn parhau i lanhau oddi amgylch y Dref. Wedi glanhau o dan y meinciau ac yn parhau i lenwi'r biniau grit oddi amgylch.
Eisiau i'r gweithiwr strydlun llenwi bin grit Y Pentre gan ei fod yn wag a dod o hyd i'r arwydd TREGARON sydd wedi dod bant efo'r gwynt a chysylltu â'r clerc.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Derbyniwyd manylion gorchymyn addasu map diffiniol, (Llwybrau ceffyl 37/78M, 48/39M, 48/38M, 37/80M, 37/79M Bryn-du Tregaron, Cyngor Sir Ceredigion 2018 – trafodwyd y gorchymyn ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

Wedi cylchredeg 'Ymgynghoriad Rheoli Datblygu' / 'Develop Management Consultations' – dim gweithrediad.

12. **UN LLAIS CYMRU**

Dim i'r gofnodi.

13. **CYNLLUN LLEOEDD / PLACE PLANS**

Cylchredwyd copi drafft o'r holiadur eisoes a thrafodwyd a chytunwyd i'r newidiadau canlynol:

- Bydd yr holiadur yn ddwyieithog, Dafydd Wyn Morgan i'w gyfieithu.
- 2ail baragraff Newid o - Your community has been invited to be part of the Place Plan scheme – newid i - Our community has been invited to be part of the Place Plan scheme.
- 4ydd paragraff - Newid o -Answering the following questions can get us started on your Place Plan for Tregaron – newid i - Answering the following questions can get us started on our Place Plan for Tregaron.
- 5ed paragraff - Newid o - What can make Tregaron a great community to live in – you decide! – newid i - What can make Tregaron a great community to live in
- Angen colofn newydd gyferbyn a'r dewisiadau i gyd am 'Agree / Disagree'
- 2ail dudalen - Paragraff 1af - Newid o - We'd also love to hear what your ideas are too! – newid i - We'd like to hear what your ideas are too!

- Angen rhoi'r dyddiad a glusnodwyd am y cyfarfod cyhoeddus ar yr holiadur - sef 28 Chwefror 2018
- Llinell diwethaf ar yr ail dudalen - Newid o - Or your local Town Councillor – newid i - A local Town Councillor
- Newid y ddyddiad dychwelyd yr holiadur i 19 Mawrth 2018 i 22 Mawrth 2018
- Coleg Prifysgol Cymru i brintio 700 o gopïau, wedi lleihau, cefn wrth gefn ar A5.
- Copïau i'w casglu ar gyfer dosbarthu o Siop Anrhegaron o 14 Mawrth 2018. Coleg Prifysgol Cymru i baratoi blychau i ddychwelyd yr holiaduron.

Cytunwyd i'r cynghorwyr dosbarthu'r holiaduron yn y mannau canlynol:-

- RHYDIAN WILSON / ANN JONES – Pentre / Abergwesyn
- CATHERINE HUGHES /. MANON WYN JAMES – Doldre /. Ffordd Dewi
- KARINE DAVIES – Heol Llambed
- JUNE OWENS – Maesamlwg / Llys Maesamlwg / Ysgol Henry Richard / Heol Bont
- ALUN OWEN – Penrodyn / Chapel Street
- GARY REES – Maesyrawel / Brynheulog
- ARWEL JONES – Blaencaron / Station Road
- GWILYM JENKINS – Berth / Tynberth / Derlwyn
- DAVID BENNETT – Rhydyfawnog / Pwllswyddog / Heol Bont

14. **COMISIWN FFINIAU**

Trafodwyd ymhellach am 'Adroddiad Cynigion Drafft – Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion' a chytunwyd i'r clerc anfon llythyr yn cytuno i'r cais gwreiddiol a ddaeth o'r Cyngor Sir i ymuno Ward Blaenpennal a Chyngor Tref Tregaron yn unol â phwynt 123 tudalen 41 o'r adroddiad.

15. **GOHEBIAETH**

15.1 Derbyniwyd cais am gymorth ariannol i brynu arwyddion a baner oddi wrth Mr & Mrs Nigel Bird i ail adfywio'r farchnad yn y Neuadd Goffa yn Nhregaron yn fisol. Trafodwyd y cais ond gan fod y fenter yn cael ei rhedeg fel busnes ni chefnogwyd y cais ond i'r clerc ymateb drwy ddymuno pob lwc iddynt.

15.2 Gwahoddiad wedi'u dderbyn oddi wrth Aren Cymru i'r Cyngor Tref drefnu taith gerdded yn ein hardal leol – dim gweithrediad.

16. **UNRHYW FATER ARALL**

16.1 Clerc i anfon hysbyseb i'r Barcud am dendrau i dorri porfa'r Eglwys a'r parc i'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.

16.2 Soniwyd bod angen bin grit yn y maes parcio, Pentref, Clerc i drefnu.

16.3 Yn dilyn cyfarfodydd yn y Cyngor Sir, soniwyd nad oedd yna barcio am ddim yn mynd i ddod i faes parcio, Pentre Tregaron.

16.4 Cwynion wedi'u derbyn am y sbwriel sy'n cael eu gadael ar bwys biniau LAS Clôs Twm Siôn Cati, Clerc i gysylltu â pherchnogion y Clôs.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR

CADEIRYDD